



POLISI YN ERBYN LLWGRWOBROWYO

Diw	Dyddiad	Diben Cyhoeddi / Disgrifiad o'r Newid	Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau
1.	29ain Mawrth, 2012	Cyhoeddiad Cyntaf	
2.	5ed Hydref, 2015	Diwygiwyd a Diweddarwyd	1af Rhagfyr, 2015

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog Cyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Cydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Grŵp Tasg Cydymffurfio	5 ^{ed} Hydref, 2015

Adolygir y polisi hwn ymhen 3 blynedd

1. Pwrpas

Mae Prifysgol Bangor yn gorfod cydymffurfio â gofynion Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 (y Ddeddf). Mae'r Polisi hwn yn nodi'r camau y bydd y Brifysgol yn eu cymryd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Ddeddf, er mwyn osgoi unrhyw atebolrwydd troseddol neu sifil i'r Brifysgol ac/neu aelodau staff unigol, a chadw delwedd broffesiynol ac enw da'r Brifysgol.

2. Rhoi'r Polisi hwn ar waith

Bydd yr Egwyddorion yn y Polisi hwn yn berthnasol i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, yn cynnwys unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd â busnes neu ymwneud â'r Brifysgol.

Yn benodol, bydd y Polisi hwn yn berthnasol i bob aelod staff (yn cynnwys staff dros dro ac achlysurol), cyfarwyddwyr cwmnïau'r Brifysgol, ymgynghorwyr, staff er anrhydedd, Aelodau'r Cyngor, asiantau, arholwyr allanol a darparwyr gwasanaethau ("Unigolion").

Bydd y Grŵp Tasg Cydymffurfio yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Polisi hwn drwy'r Pennaeth Cydymffurfio, a fydd, at ddibenion y Polisi hwn, yn cymryd y teitl "Swyddog Gwrth-lygredd". Gellir cysylltu â'r Swyddog Gwrth-lygredd yn hollol gyfrinachol i drafod pryderon a rhoi gwybod am achosion a amheuir.

3. Polisiau Eraill

Nid yw'r Polisi hwn yn gynhwysfawr a dylid ei ddarllen ar y cyd â strategaethau, polisiau, dulliau gweithredu a chanllawiau eraill y Brifysgol sy'n bodoli eisoes (fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd) yn cynnwys, polisiau'n ymwneud â'r canlynol, ond heb eu cyfyngu i'r rhain:-

- (a) Polisi ar Dwyll a Chynllun Ymateb;
- (b) Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau;
- (c) Strategaeth Pryniant a pholisiau ategol;
- (d) Rheoliadau Cyllidol;
- (e) Datgeliadau er Lles y Cyhoedd;
- (f) Polisi Moeseg Ymchwil;
- (g) Polisi Defnydd Derbyniol (yn cynnwys defnyddio e-bost a'r Rhyngrwyd, ond heb ei gyfyngu i hynny) ;
- (h) Polisi Gwarchod Data.

4. Troseddau

Mae'r Ddeddf Llwgrwobrwyo yn gwneud y canlynol yn drosedd:-

- (a) cynnig, addo neu roi llwgrwobr gyda'r bwriad o gymell neu wobrwyo cyflawni swyddogaeth neu weithgarwch perthnasol mewn modd amhriodol (llwgrwobrwyo gweithredol);
- (b) gofyn am llwgrwobr, cytuno i dderbyn llwgrwobr neu dderbyn llwgrwobr (llwgrwobrwyo goddefol);

- (c) llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor er mwyn cael neu gadw busnes neu fantais wrth gynnal busnes.
- (d) Ceir trosedd gorfforaethol ychwanegol wrth fethu ag atal llwgrwobrwyo.

Mae'r cosbau dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo yn golygu atebolrwydd troseddol yn bennaf, i'r Brifysgol ac i Unigolion yn bersonol, ond gallent hefyd gynnwys gweithredu sifil ar gyfer adfer elw a gafwyd drwy drosedd. Ceir mwy o fanylion yn **Atodiad 1**.

5. Ymrwymadau

Cyfrifoldeb pob Unigolyn yw atal, canfod a rhoi gwybod am unrhyw lwgrwobrwyo neu lwgrwobrwyo a amheuir. Ni ellir dirprwyo nac anwybyddu'r cyfrifoldeb hwn.

Camau ymarferol:-

- (a) Dylid cynnig a derbyn anrhegion, rhoddion, nawdd a lletygarwch corfforaethol yn gaeth yn unol â'r *Polisi ar Dderbyn neu Gynnig Lletygarwch Corfforaethol* ac mewn unrhyw achos, bydd yn gymesur ac nid yn helaeth.
- (b) Dylid rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau hefyd yn unol â pholisi'r Brifysgol, gan nodi manylion ar y gofrestr gwrthdaro rhwng buddiannau, a gedwir yn y Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu.
- (c) Dylid ystyried yr holl faterion perthnasol sy'n gymesur ac sy'n ymdrin â'r risgiau'n briodol o drafod gyda thrydydd parti. Dylid cymryd gofal arbennig lle bo ymchwil, neu unrhyw gontract neu gytundeb arfaethedig, yn cynnwys gwledydd neu fathau o ddiwydiant lle mae llygredd yn ymddangos yn uchel (gweler **Atodiad 2**).
- (d) Mae rhoi gwybod am achosion a amheuir yn hanfodol, a dylid gwneud hyn mor fuan ag sy'n bosibl. Dylid cadw pob gohebiaeth a / neu nodiadau cyfoes perthnasol sy'n achosi pryderon. Cysylltwch â'r Swyddog Gwrth-lygredd, neu'r Swyddog Penodedig dan y *Polisi a Dulliau Gweithredu Datgelu er Budd y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)*.
- (e) Bydd y risgiau o dorri'r gyfraith yn cael eu lleihau os dilynir canllawiau Pryntiant a Rheoliadau Cyllidol y Brifysgol.
- (f) Cynnwys cymalau ac ymrwymadau priodol mewn contractau a chytundebau, yn arbennig wrth ymdrin â gwledydd risg uchel neu mewn sectorau risg uchel. Mae cymal gwrth-lwgrwobrwyo safonol y Brifysgol wedi'i gynnwys fel **Atodiad 3** o'r Polisi hwn.
- (g) Dylid cadw'n gaeth at ofynion y *Polisi ar Dderbyn neu Gynnig Lletygarwch Corfforaethol (Atodiad 4)*.

Sylwch fod taliadau hwyluso'n¹ anghyfreithlon ym Mhrydain. Mae angen cymryd gofal wrth gynnal trefniadau busnes gyda sefydliadau yn yr Unol Daleithiau gan nad yw taliadau hwyluso'n anghyfreithlon yn yr Unol Daleithiau.

6. Hyfforddiant

Mae'n hanfodol bod pob unigolyn yn ymwybodol o'u hymrwymadau dan y Polisi hwn. Bydd y Brifysgol yn trefnu i ddeunydd fod ar gael yn amrywio o ymwybyddiaeth gyffredinol i gyngor manwl a, thra bydd yn ymdrechu i sicrhau bod pob aelod staff yn cael ei gynnwys fel bo'r angen, ni ddylai hyn atal unigolion rhag gofyn am ragor o gyfarwyddyd pan fyddant yn teimlo bod angen gwneud hynny. Os ydych chi'n ansicr sut mae hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes arnoch angen rhagor o hyfforddiant ar unrhyw elfen, cysylltwch â'r Swyddog Gwrth-Lygredd am fwy o eglurhad a gwybodaeth.

7. Cydymffurfio

Wrth ystyried y sancsiynau posibl yn erbyn y Brifysgol (a difrod i'w henw da), os torrir y Polisi hwn, ymdrinnir â hynny fel mater difrifol a gall arwain at gymryd camau'n unol â Threfniadau Disgyblu'r Brifysgol.

Er enghraifft, dan amgylchiadau penodol, gall torri'r Polisi hwn arwain at atal cyfrifon e-bost neu'r cyfryw gamau eraill y mae'r Brifysgol yn eu pennu'n briodol. Pan fo'r Brifysgol o'r farn bod ymddygiad Unigolyn yn drosedd, bydd yn ofynnol i'r Brifysgol gyfeirio'r mater at yr awdurdod perthnasol, fel yr Heddlu a/neu'r Swyddfa Twyll Difrifol.

8. Monitro ac Adrodd

Bydd y Brifysgol yn archwilio y cydymffurfir â'r Polisi hwn yn rheolaidd, ac yn ymchwilio i bob honiad o droseddau. Efallai y bydd y cyfryw ymchwiliad yn gofyn am fonitro neu adolygu cyfrifon e-bost personol. Fodd bynnag, lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol gan Ysgrifennydd y Brifysgol, gwneir hynny'n unol â'r dulliau gweithredu a nodir yn y *Polisi ar Fynediad Sefydliadol at Gyfrifon TG ac Offer TG Staff a Myfyrwyr*, a luniwyd gan y Brifysgol.

9. Y Drefn os Amheuir Llygredd

(a) Ymchwilio

- (i) Bydd y Swyddog Gwrth-lygredd yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol ac, os oes angen, bydd yn galw'r Panel Ymchwilio i Lygredd (y "Panel") ynghyd i benderfynu ar weithredu ymhellach.
- (ii) Bydd y Panel yn cynnwys y canlynol:-
 - Ysgrifennydd y Brifysgol (Cadeirydd)
 - Y Cyfarwyddwr Cyllid
 - Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

¹ Taliadau Hwyluso yw taliadau a delir i swyddog cyhoeddus i hwyluso gweithredoedd arferol y llywodraeth (fel prosesu papurau, caniatáu trwyddedau) a chaiff ei wahaniaethu o lwgrwobrwyo'n aml oherwydd ei fod yn arfer a dderbynnir dan wahanol awdurdodaethau.

- Archwiliwr Mewnol
- Y Swyddog Gwrth-lygredd

Pan na fydd yr un o'r rhain ar gael, gellir gwahodd uwch swyddog arall y Brifysgol i ymuno â'r Panel.

- (iii) Rhoddir gwybod i'r Is-ganghellor a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- (iv) Rhoddir gwybod i yswirwyr y Brifysgol.
- (v) Rhoddir gwybod i'r Heddlu lle bo'r angen.
- (vi) Bydd y Panel yn ceisio cyngor cyfreithiol lle ystyrir bod angen gwneud hynny.

(b) Atal Colled Bellach

- (i) Pan fo'r ymchwiliad cychwynnol yn rhoi sail resymol dros amau bod aelod neu aelodau staff wedi cyflawni gweithredoedd o lygru neu lwgrwobrwyo, bydd y Panel yn penderfynu sut i atal rhagor o golled neu atebolrwydd. Gall hyn olygu gwahardd, gyda neu heb dâl, y rhai dan amheuaeth.
- (ii) Efallai y bydd angen cynllunio amseru'r gwaharddiad i atal y rhai a amheuir rhag dinistrio neu gael gwared ar dystiolaeth a fydd ei hangen o bosibl i gefnogi camau disgyblu neu droseddol.
- (iii) Yn yr amgylchiadau hyn, dylid mynd at y rhai a ddrwgdybir yn ddirybudd. Dylid eu goruchwyllo drwy'r amser cyn gadael eiddo'r Brifysgol.
- (iv) Dylid caniatáu iddynt nôl eiddo personol dan oruchwyliaeth, ond ni ddylent allu symud unrhyw beth sy'n eiddo i'r Brifysgol. Dylid dychwelyd unrhyw drwyddedau diogelwch ac allweddi i eiddo, swyddfeydd a dodrefn, ynghyd ag unrhyw eiddo yn eu meddiant a all fod oddi ar y safle.
- (v) Dylid gofyn i'r Rheolwr Diogelwch, os oes angen, gynghori ar y ffordd orau i atal mynediad i'r Brifysgol, tra bo'r rhai a ddrwgdybir yn parhau wedi'u gwahardd (er enghraifft drwy newid cleon a rhoi gwybod i staff diogelwch i beidio gadael yr unigolion i mewn i unrhyw ran o'r adeilad).
- (vi) Dylid cyfarwyddo Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG (neu gynrychiolydd priodol) i dynnu'n ôl, yn ddi-oed, ganiatâd mynediad at systemau cyfrifiadurol y Brifysgol.
- (vii) Bydd y Panel yn ystyried a oes angen ymchwilio i systemau ar wahân i'r rhai y rhoddwyd achos i'w hamau, drwy'r hyn y gallai'r un a ddrwgdybir fod wedi cael cyfleoedd i gamdefnyddio asedau'r Brifysgol.

(c) Camau'n dilyn ymchwiliad rhagarweiniol

- (i) Ar ôl derbyn adroddiad rhagarweiniol gan y Swyddog Gwrth-lygredd, bydd y Panel yn penderfynu ar un neu fwy o'r canlynol:-
- Nid oes angen gweithredu ymhellach.
 - Dylid cymryd camau cyn disgyblu.
 - Dylid cymryd camau yn erbyn unigolyn/unigolion (yn cynnwys diswyddo) yn unol â threfniadau disgyblu priodol y Brifysgol.
 - Dylid rhoi'r holl faterion yn nwylo'r Heddlu, a dwyn achos o drosedd lle bo angen.

10. Gweithredu

Daeth y Deddf Llwgwrwobrwyo 2010 i rym ar 1 Gorffennaf, 2011. Daw'r Polisi diwygiedig hwn i rym ar 5ed Hydref, 2015.

11. Rhagor o Wybodaeth

Os oes ar unrhyw un angen eglurhad ynghylch unrhyw ddarpariaeth o'r Polisi hwn, dylent gysylltu â'r Swyddog Gwrth-Lygredd yn y lle cyntaf sydd wedi'i leoli yn y Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu.

Os oes unrhyw un yn dymuno cwyno am unrhyw ddarpariaeth o'r Polisi hwn a/neu'r modd caiff ei weithredu, gallent wneud hynny'n unol â Threfn Gwynion Staff a Chyffredinol y Brifysgol.

SANCSIYNAU

(A) Atebolrwydd Troseddol

1. Unigolion

Y gosb fwyaf i bobl a ddyfernir yn euog dan y Ddeddf Llwgwrwbrwyo yw 10 mlynedd o garchar a / neu ddirwyon personol.

Gellir diarddel unigolion hefyd rhag bod yn gyfarwyddwyr dan Ddeddf Diarddel Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

2. Y Brifysgol

Gellir gosod dirwyon diderfyn ar sefydliadau am fethu ag atal llwgwrwbrwyo. Mae'r Swyddfa Twyll Difrifol wedi nodi bod y rhain yn debygol o fod yn symiau sylweddol. Gellir atal sefydliadau hefyd rhag derbyn bidiau am gcontractau cyhoeddus.

Gall Uwch Swyddogion a'r Brifysgol fod yn atebol os gellir dangos bod y Brifysgol wedi cyflawni gweithred o lwgwrwbrwyo gyda chaniatâd neu gyd-gynllwyn uwch swyddog, neu rywun sy'n cymryd arno i weithredu yn y cyfryw swyddogaeth.

(B) Atebolrwydd Sifil

Yn ogystal, neu fel dewis arall i'r cosbau troseddol, gellir cymryd camau i adfer elw o drosedd dan Ddeddf Elw Troseddau 2002, Rhan 5.

A. Gwledydd yr ymddengys iddynt fod yn risg uchel ar gyfer Llygredd

Bob blwyddyn, mae 'Transparency International' yn cyhoeddi 'Corruptions Perceptions Index' ("CPI") sy'n ddangosydd defnyddiol ar risgiau llygredd mewn unrhyw wlad benodol. http://www.transparency.org/policy_research/surveys_indices/cpi/2010/results

B. Sectorau yr ymddengys iddynt fod yn risg uchel ar gyfer Llygredd

Mae'r 'Bribe Payers Index' ("BPI") yn rhestru sectorau diwydiannau'n unol ag ystadegau'n amrywio o swyddogion llwgrwobrwyo i fynychder llwgrwobrwyon. Mae'r arolwg diweddaraf ar gael yn <http://www.transparency.org>

Dyma grynodeb o'r rhestr, gyda'r sectorau glanaf ar y gwaelod a'r troseddwy'r gwaethaf ar y brig:-

1. Adeiladu a chontractau gwaith cyhoeddus
2. Eiddo tiriog a datblygu eiddo
3. Olew a nwy
4. Gweithgynhyrchu trwm
5. Mwyngloddio
6. Fferyllol a Gofal Meddygol
7. Cyfleustodau
8. Awyrofod Sifiliaid
9. Cynhyrchu a thrawsyrru pŵer
10. Coedwigaeth
11. Telathrebu ac offer
12. Trawsgludo a storio
13. Arfau ac Amddiffyn
14. Gwestai, bwytai a hamdden
15. Amaethyddiaeth
16. Gweithgynhyrchu ysgafn

17. Technoleg Gwybodaeth

18. Bancio a Chyllid

19. Pysgodfeydd

Cymal Gwrth-Lwgrwobrwyo

Mae'r Brifysgol wedi penderfynu mabwysiadu polisi o arfer gorau er mwyn sicrhau, cyhyd ag sy'n bosibl, bod cymal safonol gwrth-lwgrwobrwyo'r Brifysgol (fel y nodir isod) yn cael ei gynnwys mewn contractau perthnasol (fel contractau ar gyfer gwasanaethau) yn ymwneud â'r Brifysgol a'i his-gwmnïau y mae'n llwyr berchen arnynt.

Dyma'r cymal:-

- 1. Ni fydd y Partner yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch, ymarfer neu ymddygiad a fyddai'n cyfrif fel trosedd dan Ddeddf Llwrwobrwyo 2010; a**
- 2. Bydd gan y partner ddulliau gweithredu digonol mewn grym yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 9 Deddf Llwrwobrwyo 2010, a luniwyd i atal pobl gysylltiedig rhag ymgymryd ag unrhyw ymddygiad o'r fath."**

Mae dogfen gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gael yn:-

<http://www.justice.gov.uk/downloads/guidance/making-reviewing-law/bribery-act-2010-guidance.pdf>

Mae'r ddogfen gyfarwyddyd yn cynnwys ychydig o astudiaethau achos defnyddiol i ddangos sut bydd y Ddeddf Llwrwobrwyo'n gweithio'n ymarferol.

Mae cyfarwyddyd byr ar gael yn:- <http://www.justice.gov.uk/downloads/guidance/making-reviewing-law/bribery-act-2010-quick-start-guide.pdf>

Nid yw'r Brifysgol yn gallu rhoi cyngor penodol i bartneriaid ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Cyngorir partneriaid i geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynghylch y cymal a'i gysylltiad gyda'ch contract, cysylltwch yn y lle cyntaf â'r Tîm Ôl-ddyfarnu, Swyddfa Ymchwil a Menter.

POLISI AR GYFER DERBYN NEU GYNNIG LLETYGARWCH CORFFORAETHOL

Yr egwyddor arweiniol yn y polisi hwn yw na ddylid dylanwadu ar aelod staff mewn unrhyw benderfyniad, neu wrth roi cyngor ar wneud penderfyniadau, drwy dderbyn unrhyw anrhegion, lletygarwch neu gymwynasau gan unrhyw sefydliad. Dylid darllen y dulliau gweithredu hyn ar y cyd â Pholisi'r Brifysgol yn erbyn Llwgrwobrwyo.

Dylai staff gadw at y canlynol:-

1. Ni ddylai unrhyw aelod staff dderbyn anrheg bersonol, arian, lletygarwch neu gymwynasau, neu gymryd rhan mewn unrhyw achlysuron cymdeithasol neu hamdden (ac eithrio pwyntiau 2 a 3 isod), gan unrhyw unigolyn y mae'r Brifysgol yn prynu gwasanaethau neu eitemau ganddynt, neu i'r rhai y gosodir contractau, neu mewn cysylltiad â'r hwn y mae penderfyniad buddiol yn bosibl. Byddai'r un fath yn berthnasol i unrhyw sefydliad neu unigolyn pan fo gan y Brifysgol fwriad i brynu ganddo, gosod contract iddo neu wneud penderfyniad buddiol yn ei gylch yn y dyfodol. Yn gyffredinol felly, dylid gwrthod anrhegion, lletygarwch etc. yn gwrtais, gan egluro mai dyma bolisi'r Brifysgol.
2. Gellir derbyn anrheg y mae gwerth cynhenid isel iddi (e.e. calendr, dyddiadur etc.) cyhyd ag y rhoddir gwybod am fodolaeth yr anrheg i Bennaeth y Coleg/ Ysgol neu'r Adran Gwasanaeth Canolog.
3. Gellir cyfnewid anrhegion bychain neu dalu lletygarwch yn ôl, e.e. gydag ymwelydd o brifysgol neu sefydliad arall, sy'n arwydd o ewylllys da, a lle gellir achosi embaras i'r Brifysgol pe bai'r anrheg neu'r lletygarwch yn cael eu gwrthod, a'i gofnodi yn y Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch. Fodd bynnag, dylai aelodau staff bob amser geisio trafod priodoldeb y cyfryw gyfnewid gyda Phennaeth y Coleg / Ysgol / Adran Gwasanaeth Canolog perthnasol cyn ei dderbyn.
4. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol neu'r Adran Gwasanaeth Canolog awdurdodi cymryd rhan mewn digwyddiadau neu arddangosfeydd etc. sydd â gogwydd masnachol, ac sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau neu unigolion y mae'r Brifysgol yn prynu gwasanaethau neu eitemau ganddynt, neu i'r rhai y gosodir contractau, neu mewn cysylltiad â'r hwn y mae penderfyniad buddiol yn bosibl. Byddai'r un fath yn berthnasol i unrhyw sefydliad neu unigolyn pan fo gan y Brifysgol fwriad i brynu ganddo, gosod contract iddo neu wneud penderfyniad buddiol yn ei gylch yn y dyfodol. Dylid datgan a nodi'r cyfryw gyfranogiad yng Nghofrestr Anrhegion a Lletygarwch y Coleg / Ysgol / Adran.
5. Ni fwriedir i'r diffiniad o lletygarwch corfforaethol gynnwys ciniawau gwaith sydd yn eu hanfod yn gyfarfodydd neu'n estyniad o gyfarfodydd, na'r cynnig o ddiodydd di-alcohol neu luniaeth ysgafn; yn yr un modd, gellir derbyn gwahoddiadau i giniawau a drefnir gan gyrff proffesiynol, ond dylai aelodau staff ddefnyddio'u doethineb ynghylch pryd y byddai'n briodol derbyn y cyfryw wahoddiadau, gan roi ystyriaeth briodol i ofynion y dulliau gweithredu hyn a Pholisi'r Brifysgol yn erbyn Llwgrwobrwyo.

Os oes gan unrhyw un unrhyw amheuaeth ynghylch unrhyw achos penodol, dylai ef/hi gysylltu â Phennaeth eu Coleg / Ysgol / Adran Gwasanaeth Canolog. Gall Pennaeth y Coleg/ Ysgol / Adran Gwasanaeth Canolog, yn ei dro, ddod â'r mater i sylw y Ysgrifennydd y Brifysgol (neu'r Pennaeth Cydymffurfio yn ei absenoldeb) i gael cyngor neu benderfyniad terfynol.

Os na chydymffurfir â'r Polisi hwn, gall hyn arwain at gymryd camau disgyblu.

Bydd Cofrestr Anrhegion a Lletygarwch y Coleg / Ysgol / Adran ar gael i'w harchwilio gan yr Archwiliwr Mewnol, y Pwyllgor Archwilio neu eraill fel y pennir yn angenrheidiol.

COFRESTR ANRHEGION A LLETYGARWCH

A. PRESENOLDEB MEWN DIGWYDDIAD

Mae'r aelod(au) staff canlynol wedi cael ei awdurdodi/eu hawdurdodi i fod yn bresennol yn:

.....
(Enw a disgrifiad o'r digwyddiad)

ar

.....
(Dyddiad)

Unrhyw sylwadau eraill:

Llofnod:

(Pennaeth yr Ysgol / Adran Gwasanaeth Canolog)

Dyddiad:

B. DERBYN ANRHEG SYDD A GWERTH CYNHENID ISEL

Enw'r aelod staff dan sylw:
.....

Disgrifiad o'r anrheg a dderbyniwyd / a gyfnewidiwyd:

.....
.....

Derbyniwyd yr anrheg gan:

Llofnod:

Dyddiad: